Take Christ out of Christmas
and you are left with M and S

Rhys Powys

"Christmas wouldn't be Christmas without Morrisons"
Medde'r dyn ar y sgrin
Tra bod llun o Colleen
A'i ffrindiau yn dawnsio,
Mewn ffrogiau o Tesco,
Nid i stabal yr ych
Ond i ryw blasty gwych
I fwynhau "Gwledd y Nadolig".

Does dim gwahoddiad i'r doethion,
Dim ond i Stacey Solomon,
A'i holl gyfoedion.
Llond gwlad o ddanteithion,
A hynny, gyfeillion,
Mewn "High Definition".

Bwrdd ar ôl bwrdd
O seigiau bach blasus
Ac unffurf a thaclus
A hynod o grand -
"And that's why Mums go to Iceland."

Mae 'na liaws o angylion
Yn y Carphone Warehouse
Yn lawr-lwytho "apps"
Ac yn syllu ar 'faps'
I gael Googlo'r bugeiliaid
Allan yn y maes.
Ac yna 'trydar' i holl blant y llawr
Eu newyddion da o lawenydd mawr.

iPhone, iPad, iPod -
Ai fi yw'r unig un sy'n ei gweld hi'n od
Rhoi anrhegion mor dechnolegol
I gofio Mab y geni gwyrthiol?

Mae'n ddeg y nos, a dyma Huw
Yn darllen y 'news' ar ei 'auto-queue'
Fod 'na danau'n llosgi ar hyd strydoedd Llundain,
Protestio yn Cairo, yn Athen a Rhufain.
Gohebiaeth gwrthdaro o bedwar ban byd,
A rhaid ein hatgoffa, o hyd ac o hyd
Am y bechgyn dewr, dan haul y paith,
Ar ddydd Gwyl y Geni, yn gwneud eu gwaith
O'n gwarchod rhag terfysg y Taliban -
"A dyma'r diweddara o Affganistan ..."

Yna'n sydyn, mae plentyn yn chwerthin
Wrth weld pluen eira yn disgyn,
Ac ar y radio yn y gegin
Dwi'n clywed llais Delwyn
Yn canu am seren,
"Fry uwch Bethlehem"
Ac mae'r ty yn tawelu -
Mae'r plant yn y gwely.
A dwi'n diffodd y "telly" -

"Christmas wouldn't be Christmas without Christ ..."

Clic! Ac mae heddwch yn teyrnasu.